

Albert y Gofodwr



*Mesuriadau
Albert (kg):*

87.1
87.6
86.9
87.0
87.5
87.5
87.2

Mae'n hanfodol bod pwysau gofodwr yn cael ei fesur mor fanwl gywir â phosibl er mwyn cyfrifo gofynion tanwydd. Mae Albert wedi mesur ei bwysau bob dydd am y 7 diwrnod diwethaf cyn ei ymgyrch. Allwch chi ei helpu i gyfrifo ei bwysau cymedrig i'w anfon yn ôl i NASA?



Boris y Pobydd



*Mae'r 9
bag yn
cynnwys:*

12

10

10

10

13

12

11

13

10

Mae Boris yn bobydd rhagorol ac mae'n enwog am ei fyny blasus. Mae nifer y toesenni ym mhob bag mae'n ei wneud yn gallu amrywio, felly hoffai hysbysebu'r cyfartaledd rhif cyfan uchaf i'w gwsmeriaid. Mae wedi gwirio faint o doesenni sydd mewn 9 bag. Cyfrifwch y canolrif a'r modd i weld pa un ddylai ei ddefnyddio i'w roi ar ei arwydd.



Charlie, Nofiwr y Sianel



Ei hamseroedd:

1 awr 5 munud

1 awr 8 munud

56 munud

1 awr 10 munud

48 munud

Mae Charlie yn hyfforddi i nofio'n arwrol ar draws y Sianel unwaith eto. Mae hi'n ceisio gwneud yn siŵr ei bod hi'n nofio mor gyson â phosibl. Mae angen iddi gyfrifo amrediad amseroedd ei phum sesiwn hyfforddi nofio diwethaf mewn munudau. Beth ydyw?



Derek y Deintydd



*Nifer y
llenwadau:*

1
0
1
5
6
3
4

Mae Derek yn cynnal arolwg o nifer cyfartalog y llenwadau sydd gan ei gwsmeriaid. Mae angen iddo roi'r cyfartaledd isaf posibl i'w bennaeth, Desmond, i guddio'r ffaith ei fod yn ddeintydd gwael! Cyfrifwch gymedr, canolrif a modd y 7 cwsmer a welodd y prynhawn hwnnw a helpwch ef i benderfynu pa un ddylai ei ddefnyddio yn ei adroddiad.



Egbert y Peiriannydd



Y 6 sain diwethaf:

98
100
104
88
101
109

Mae Egbert wedi cael ei dasg fwyaf eto. Mae wedi cael ei gyflogi i weithio ar Big Ben gan nad yw wedi bod yn gweithio'n ddigon da'n ddiweddar. Mae wedi mesur sain pob trawiad un o'r gloch mewn desibelau dros y chwe diwrnod diwethaf. Mae ei bennaeth Ethel wedi dweud wrtho bod angen iddo sicrhau cymedr o 100 desibel dros yr wythnos. Pa mor uchel mae angen i sain trawiad un o'r gloch heddiw fod er mwyn iddo gyflawni ei nod?



Florence y Cynghorwr Ariannol



*Gwnaeth ei 5
cwsmer diwethaf:*

£90

£88

£88

£101

£304

Mae Florence yn gwneud ei gorau glas i hysbysebu ei hasiantaeth (dydy hi ddim yn dda iawn!). Mae hi wedi cofnodi faint wnaeth ei 5 cwsmer diwethaf o'u buddsoddiadau o £100. Pa gyfartaledd (cymedr, canolrif neu fodd) ddylai hi ei ddefnyddio ar ei gwefan i ddenu mwy o gwsmeriaid, a beth yw'r pris ddylai hi ei enwi?

Roedd Florence wedi dod i ddeall pethau erbyn y pumed cwsmer!



Gerard yr Hyfforddwr Campfa



*Nifer y
byrfreichiau gan
bob chwaraewr:*

23
50
45
34
12
35
42
60
56
45
34

Mae Gerard yn gyfrifol am hyfforddi ei dîm pêl-droed lleol. Mae rheolwr y tîm eisiau gwybod nifer cymedrig y byrfreichiau mae'r tîm 1af yn eu gwneud mewn un munud er mwyn profi i'r cadeirydd bod angen hyfforddwr campfa ar y gyflogres (Gerard yw mab y rheolwr!).

Beth
ydyw?



Ingrid y Cynllunydd Cartref



*Talodd ei saith
cynllun diwethaf:*

£4000
£2000
£1500
£5000
£4000
£3500
£4300

Mae Ingrid wedi cofnodi faint gafodd hi ei thalu am ei saith cynllun diwethaf. Mae hi eisiau rhoi'r pris cyfartalog isaf ar ei gwefan newydd er mwyn denu mwy o gwsmeriaid. Ddylai hi ddefnyddio'r cymedr, y canolrif neu'r modd i wneud hyn?



Judy y Jyglwr



Ei phum treial:

1 munud 50 eiliad

1 munud 8 eiliad

3 munud 56 eiliad

2 funud 34 eiliad

3 munud 40 eiliad

Mae Judy yn cynllunio ei pherfformiad jyglo peryg-bywyd nesaf i geisio mynd ar *Britain's Got Talent* y flwyddyn nesaf. Mae angen iddi sicrhau ei bod hi'n gallu jyglo am amser digon hir yn gyson.

Mae hi'n amseru pum treial, ond beth yw'r amrediad mewn eiliadau?



Kevin yr Hyfforddwr Caiac



ChrisMorinPhotography.com

*Y chwe amser
(mewn eiliadau):*

45
89
101
67
91
120

Mae Kevin yn cynnal gwersi caiacio sy'n para awr, ac mae'n bwriadu trefnu ei chwe chaiacwr gorau yn ôl eu hamser dros y cwrs. Os yw'n gwneud hyn, beth fyddai'r amser canolrif? Mae Kelvin, y pennaeth, yn defnyddio'r mesur hwn i farnu gallu hyfforddi Kevin.



Leona y Gyrrwr Loriau



*Nifer y parseli o
bob tasg:*

12

9

6

7

12

9

10

5

6

Mae Leona yn codi llawer o becynnau i'w danfon gan bob un o'i chwsmeriaid. Mae hi eisiau gwybod nifer moddol y parseli mae hi'n eu codi o bob tasg er mwyn gwneud ei hadroddiad misol. Allwch chi weld pam gallai'r mis hwn achosi dryswch i Leona? Beth ddylai hi ei wneud?



Marty y Mecanydd



*Y gwasgeddau yn
y tri theiar cyntaf:*

29psi

32psi

31psi

Mae angen i Marty sicrhau bod y gwasgedd cywir yn nheians ei gwsmer. Mae angen i wasgedd cymedrig y pedwar teiar fod o leiaf 31psi. Mae wedi mesur y tri theiar cyntaf. Beth yw'r gwasgedd lleiaf posibl allai Marty ei fesur yn y pedwerydd teiar er mwyn i'r car basio'r prawf?



Harold y Triniwr Gwallt



*Gofynnodd ei
10 cwsmer
diwethaf am:*

2
2
4
1
1
5
4
2
3
2
1

Dim ond un llafn newydd mae Harold yn gallu fforddio ei brynu i'w set tocio gwallt. Mae'n cofnodi'r gosodiad mwyaf poblogaidd y gofynnodd ei 10 cwsmer diwethaf amdano. Yn seiliedig ar yr atebion, pa lafn newydd ddylai ei brynu a pha gyfartaledd ddylai ei ddefnyddio i gyfrifo hyn?



Nelly y Swyddog Llynges



*Nifer y
taflegrau:*

34

34

35

66

89


4

56

Mae angen i Nelly gyfrifo nifer canolrif y taflegrau ar draws y saith llong yn ei llynges. Allwch chi ei helpu hi i wneud hyn?



Ollie yr Optegydd



-0.5
2.0
2.5
-1.5
0
0
1.0
4.5

Mae angen i Ollie ddweud wrth Gymdeithas Optegwyr Prydain beth yw cryfder lens cymedrig ei gwsmeriaid. Cyfrifwch y cymedr o'r arolwg o gwsmeriaid heddiw.



Peter y Parafeddyg



*6 amser diwethaf
Peter wedi'u
talgyrnnu i'r
munud diwethaf
ym:*

2
20
31
45
8
26



abcw presents

Rhaid i Peter roi ei amser ymateb cyfartalog i'r orsaf newyddion leol gan eu bod nhw'n gwneud adroddiad newyddion ar wasanaeth ambiwlans gorau'r sir. Cyfrifwch y cymedr, y modd, y canolrif a'r amrediad a phenderfynwch pa gyfartaledd sy'n gwneud i wasanaeth ambiwlans Peter edrych orau.

Quentin y Chwarelwr



*Dyfnnder drilio
mewn metrau:*

2
12
6
10
4
9
2

Mae Quentin yn chwarelwr ar ei liwt ei hun sy'n gwneud gwaith ar gontract i gwmni newydd. Mae ei gyflogwr eisiau sicrhau ei fod yn weithiwr da, felly mae'n gofyn am ei ddyfnnder drilio cymedrig yn y 7 diwrnod diwethaf. Cyfrifwch y cymedr, y modd, y canolrif a'r amrediada phenderfynwch pa un fyddai'r cyfartaledd gorau i'w roi i'w bennaeth.



Roger y Chwaraewr Rygbi



*Yn y tair gêm
gyntaf, maen nhw
wedi sgorio'r nifer
hwn o geisiadau:*

4

7

1

Mae rheolwr Roger wedi gosod targed i'w dîm rygbi o sgorio cymedr o 5 cais y gêm am 4 gêm gyntaf y tymor. Os yw'r tîm wedi sgorio'r nifer hwn o geisiadau yn y tair gêm gyntaf, faint o geisiadau mae angen iddyn nhw eu sgorio yn y bedwaredd er mwyn cyrraedd y targed?



Sally y Styntiwr



Enillion o bob

ffilm:

1000

8000

7500

3200

5000

8000

600

200

Mae Sally yn cynllunio gwefan i hysbysebu ei gwasanaethau fel styntiwr. Mae hi'n gobeithio cael cymaint o dâl â phosibl, felly mae hi'n rhoi ei thâl cyfartalog yn seiliedig ar yr 8 ffilm ddiwethaf mae hi wedi'u gwneud. Cyfrifwch y cymedr, y modd, y canolrif a'r amrediad a phenderfynwch pa un fyddai'r tâl gorau i'w roi ar ei gwefan.



Tony y Gyrrwr Taxis



Mae Tony yn gwneud gwaith papur ar gyfer ei drethi ac mae'n rhaid iddo ddatgan ei bris moddol. Dewch o hyd i'r dosbarth modd yn y tabl amledd.

Cost	Amledd
£0-10	8
£ 10-20	6
£20-30	5
£30-40	6
£40 +	2

Umberto y Dyfarnwr



Nifer y wicedi	Tali
0	
1	
2	
3	
4	
5	
6	
7	
8	
9	
10	

Mae angen i Umberto gyfrifo nifer cymedrig y wicedi gafodd eu colli yn y tri deg o gemau 50 pelawd gafodd eu chwarae y tymor hwn. Mae wedi cofnodi nifer y wicedi gafodd eu colli ym mhob gêm mewn siart tali. Allwch chi gyfrifo'r cymedr?

Victor y Milfeddyg



Mae Victor yn pori drwy Gatalog y Milfeddygon i chwilio am gewyll newydd i gŵn. Mae angen iddo ddod o hyd i amrediad hydoedd y cŵn sy'n perthyn i'w filfeddygfa er mwyn penderfynu pa gewyll i'w harchebu.

*Hyd ei 6 chi
diwethaf:*

1.43m

1.05m

34cm

56cm

89cm

1.1m



Wendy y Cynllunydd Priodasau



Mae Wendy yn cynllunio priodas cleient. Dim

ond un pryd bwyd mae hi'n gallu ei ddewis.

Dewiswch pa gyfartaledd fyddai'r gorau i

blesio'r nifer mwyaf o westeion.

Dewisiadau'r fwydlen	Amledd
Cig eidion rhost	14
Cig oen rhost	16
Coq au vin	11
Llysiau pob	5

Xander y Technegydd Pelydr-X



Mae'n rhaid i Xander nodi lefelau cymedrig datguddiad i ymbelydredd dros y 7 diwrnod diwethaf. Defnyddiwch y data sydd wedi'u rhoi i gyfrifo hyn.

*Datguddiad
(mSv):*

Diwrnod 1: 0.09

Diwrnod 2: 0.6

Diwrnod 3: 0.71

Diwrnod 4: 0.09

Diwrnod 5: 0.02

Diwrnod 6: 0.8

Diwrnod 7: 0.99



Yogi yr Hwylwr



Amseroedd:
2 funud 4 eiliad
4 munud 32 eiliad
3 munud 20 eiliad
2 funud 59 eiliad
3 munud 3 eiliad

Mae Yogi yn cyfrifo ei fuanedd cymedrig dros ei gwrs ymarfer yn y pum diwrnod diwethaf.

Defnyddiwch yr amseroedd i gyfrifo ei fuanedd cymedrig dros y cwrs mewn eiliadau.



Zelda y Sŵolegydd



Mae pennaeth Zelda yn amau ei bod hi'n rhoi gormod o fwyd i'r anifeiliaid yn y sw. Mae wedi gofyn iddi nodi pwysau'r llewod i weld a ydyn nhw dros bwysau. Pa gyfartaledd ddylai hi ei ddefnyddio yn ei hadroddiad?

Pwysau (kg):

256

278

265

262

241

